Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 274 (Cy. 72)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) 2017

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mewnosodwyd adran 144A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gan adran 56 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod.

Mae adran 144A(4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad blynyddol fod ar ffurf a ragnodir drwy reoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi ffurf yr adroddiad blynyddol. Mae'r gofynion o ran ffurf yr adroddiad blynyddol wedi eu cynnwys yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Mae'r Atodlen yn disgrifio'r penawdau y mae rhaid i'r wybodaeth y mae'n ofynnol iddi gael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol gael eu nodi odanynt.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 274 (Cy. 72)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) 2017

*Gwnaed* *5 Mawrth 2017*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *8 Mawrth 2017*

*Yn dod i rym* *4 Medi 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 144A(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 4 Medi 2017 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adroddiad blynyddol" ("*annual report*") yw'r adroddiad y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei lunio a'i gyhoeddi yn unol ag adran 144A o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

(**1**) 2014 dccc 4. Mewnosodwyd adran 144A gan adran 56(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Ffurf yr adroddiad blynyddol**

**3.** Mae'r Atodlen (sy'n nodi'r gofynion o ran ffurf adroddiadau blynyddol) yn cael effaith.

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru
5 Mawrth 2017

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# YR ATODLEN

Rheoliad 3

## Gofynion o ran ffurf adroddiadau blynyddol

**1.** Rhaid i'r wybodaeth y mae'n ofynnol iddi gael ei chynnwys mewn adroddiad blynyddol(**1**) gael ei nodi o dan y penawdau a ganlyn—

Pennod 1: Rhagarweiniad

Pennod 2: Crynodeb y Cyfarwyddwr o berfformiad

Pennod 3: Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?

Pennod 4: Hyrwyddo a gwella llesiant y rheini yr ydym yn eu cynorthwyo

Pennod 5: Sut yr ydym yn gwneud yr hyn yr ydym yn ei wneud

Pennod 6: Cael mynediad i wybodaeth bellach a dogfennau allweddol

**2.** Rhaid i'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ym mhennod 4 gael ei nodi mewn chwe rhan o dan y penawdau a ganlyn—

Pennod 4(a): Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl am eu cyflawni

Pennod 4(b): Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol pobl

Pennod 4(c): Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Pennod 4(d): Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Pennod 4(e): Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel

Pennod 4(f): Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni llesiant economaidd gwell, i gael bywyd cymdeithasol ac i fyw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion

**3.** Rhaid i'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ym mhob rhan o bennod 4 gael ei nodi mewn tair adran o dan y penawdau a ganlyn—

---

(**1**) Mae adran 144A(2) o'r Ddeddf yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn adroddiad blynyddol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Adran (i): Beth y gwnaethom gynllunio ei wneud y llynedd?

Adran (ii): I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth a wnaethom?

Adran (iii): Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

**4.** Rhaid i'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ym mhennod 5 gael ei nodi mewn tair rhan o dan y penawdau a ganlyn—

Pennod 5(a): Ein gweithlu a sut yr ydym yn cefnogi eu rolau proffesiynol

Pennod 5(b): Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

Pennod 5(c): Ein gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd